# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

**2009 mccc 2**

## RHAN 1

GWELLA LLYWODRAETH LEOL

*Gweinidogion Cymru*

### 28 Gweinidogion Cymru: cymorth i awdurdodau gwella Cymreig

(1) Os ydynt wedi cydymffurfio ag is-adran (3), caiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw beth y maent o'r farn ei fod yn debyg o gynorthwyo awdurdod gwella Cymreig i gydymffurfio â gofynion y Rhan hon.

(2) Mae'r pŵer o dan is-adran (1) yn cynnwys pŵer—

- (a) i ymrwymo i drefniadau neu gytundebau gydag unrhyw berson;
- (b) i gydweithredu gydag unrhyw berson, neu i hwyluso neu gydlynu gweithgareddau'r person hwnnw;
- (c) i arfer ar ran unrhyw berson unrhyw un o swyddogaethau'r person hwnnw;
- (d) i ddarparu staff, nwyddau, gwasanaethau neu lety i unrhyw berson.

(3) Onid ydynt yn arfer y pŵer o dan is-adran (1) mewn ymateb i gais a wneir o dan is-adran (4), rhaid i Weinidogion Cymru, cyn arfer y pŵer hwnnw, ymgynghori â—

- (a) yr awdurdod gwella Cymreig neu'r awdurdodau gwella Cymreig y maent yn bwriadu ei gynorthwyo neu eu cynorthwyo wrth arfer y pŵer; a
- (b) y personau hynny y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru mai hwy yw'r prif randdeiliaid yr effeithir arnynt wrth arfer y pŵer y cyfeirir ato yn is-adran (1).

(4) Os yw awdurdod gwella Cymreig yn gofyn iddynt wneud hynny, rhaid i Weinidogion Cymru bwyso a mesur a ddylent arfer eu pŵer o dan is-adran (1).

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Adran 28 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 10 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 28 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 53(2)**

**I2** A. 28 mewn grym ar 1.4.2010 gan O.S. 2009/3272, ergl. 3(1), **Atod. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Adran 28 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 10 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Measure associated Parts and Chapters:**

– Measure repealed by 2021 asc 1 s. 170(1)

Whole provisions yet to be inserted into this Measure (including any effects on those provisions):

– Sch. para. 10 omitted by 2018 anaw 2 Sch. 1 para. 16